PRENTISIAETHAU. DEWIS DOETH


CYNGOR GWYNEDD



# PRENTIS UNED BUSNES

## Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru



# GWEFANNAU DEFNYDDIOL

www.instagram.com/prentisiaidcg

prentisiaethau@gwynedd.llyw.cymru

www.gwynedd.llyw.cymru/prentisiaethau

www.gwynedd.llyw.cymru/swyddi

https://nmwtra.wales/

https://traffic.wales/

PRENTISIAETHAU.
DEWIS DOETH

# CYNNWYS


| | |
|---|---|
| GAIR O GROESO | 5 |
| BETH YW PRENTISIAETH? | 6 |
| PRENTIS BUSNES ACGCC | 7 |
| BUDDIANNAU PRENTISIAETH | 9 |
| BETH SY'N GWNEUD Y PRENTIS PERFFAITH? | 13 |
| CREU CAIS EFFEITHIOL | 14 |

# GAIR O GROESO

**Hoffem eich croesawu i Becyn Gwybodaeth Prentisiaethau Cyngor Gwynedd!**

Mae Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru (ACGCC) sy'n cael ei gynnal gan Gyngor Gwynedd, yn gyffrous i fod yn rhan o'r cynllun prentis hwn ac yn awyddus i gwrdd â phrentisiaid posibl sy'n dymuno cychwyn ar yrfa ym maes priffyrdd a thrafnidiaeth ar draws yr ardal sy'n cynnwys Gogledd a Chanolbarth Cymru i gyd.

Mae'r Asiantaeth yn gweld y cynllun hwn fel cyfle i ddod â phobl ifanc i faes gwaith amrywiol a diddorol ar ddechrau eu gyrfa. Hefyd, mae'n cyfrannu at ein cynlluniau ehangach ar gyfer olyniaeth er mwyn sicrhau bod gennym staff â'r sgiliau a'r profiad angenrheidiol i gynnal yr asiantaeth ar gyfer y dyfodol. Rydym yn ymdrin ag ystod eang o ddisgyblaethau gan gynnwys peirianneg sifil, peirianneg fecanyddol a thrydanol, busnes a chyllid a Thechnoleg Gwybodaeth. Mae hyn yn darparu ystod amrywiol o gyfleoedd i brentisiaid ddatblygu eu llwybr gyrfa dewisol gyda'r potensial i symud ymlaen i lefel gradd a thu hwnt.

Mae ein staff gwerthfawr yn croesawu'r cyfle i gefnogi a mentora ein prentisiaid a chynorthwyo yn eu datblygiad cyffredinol yn academaidd ac yn y gweithle. Mae NMWTRA yn sefydliad dwyieithog deinameg sy'n wynebu cyfres barhaus o heriau ar lefel weithredol ac wrth ddatblygu ein rhaglenni prosiect - er mwyn cadw'r rhwydwaith cefnffyrdd i weithredu'n ddiogel ac yn effeithlon ar ran Llywodraeth Cymru ac ar gyfer pobl Cymru.

Am fwy o wybodaeth am weithio gyda ACGCC, gweler y linc Pam gweithio i Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru? (youtube.com)





Mark McNamara
Pennaeth Gwasanaeth

## BETH YW PRENTISIAETH?

Mae prentisiaeth yn gyfle i chi ddatblygu eich gyrfa drwy weithio gyda pobl profiadol, derbyn cymwysterau a chael cyflog yr un pryd!

Mae prentisiaethau wedi eu llunio o amgylch fframweithiau a safonau sydd yn gyfuniad o gymwysterau sydd yn cael eu cydnabod yn genedlaethol.

Er mwyn i chi fod yn brentis bydd rhaid i chi fod mewn cyflogaeth. Byddwn ni fel eich cyflogwr yn cynnig profiadau yn y gweithle i chi yn y maes o'ch ddewis, a byddwn yn eich cefnogi i gwblhau eich prentisiaeth yn llwyddiannus.

Rydym ni fel Cyngor yn falch iawn o fod yn gallu cynnig cyfleoedd o'r safon uchaf i'n trigolion, ac yn edrych ymlaen i groesawu'n prentisiaid i'n sefydliad.

## CWESTIYNAU CYFFREDINOL

**Pwy sy'n cael gwneud cais am brentisiaeth?**
Gall unrhyw un wneud cais am brentisiaeth os ydyn nhw dros 16 mlwydd oed, yn byw yng Nghymru ac nad ydynt mewn addysg lawn amser.

**Pa gymhwyster byddaf yn ei astudio?**
Bydd hyn yn dibynnu ar y llwybr byddwch fel Prentis yn ei ddilyn. Mae'r fframweithiau Prentisiaethau yn cynnwys cymwysterau o bob lefel.

**Ble fydd yr hyfforddiant yn cael ei gynnal?**
Byddwch yn cael eich ryddhau o’r gwaith, i astudio mewn Coleg neu Brifysgol neu byddwch yn dilyn rhaglen dysgu o bell os yw'r ddarpariaeth yn y gweithle yn unig.

**Beth fydd hyd y brentisiaeth?**
Mae prentisiaeth yn cymryd rhwng 12 a 36 mis i'w gwblhau, yn ddibynnol ar ofynion penodol y cymwysterau a'r lleoliadau.

**Sawl awr sy'n rhaid i brentis weithio?**
Rhaid i Brentis gael ei gyflogi am o leiaf 16 awr yr wythnos.

**Oes yna gyfyngiad o ran oedran?**
Nac oes, ond mae pobl ifanc rhwng 16 i 19 oed yn cael blaenoriaeth.

# UNED BUSNES ACGCC

Mae Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru (ACGCC) yn gweithio ar ran Llywodraeth Cymru i reoli, cynnal a gwella rhwydwaith y ffyrdd strategol yng Ngogledd a Chanolbarth Cymru. Mae'r gwasanaeth yn cynnwys tua 1080 cilomedr (670 filltir) yn cynnwys twneli'r A55.

Mae'r ACGCC yn gweithredu ar sail partneriaeth rhwng yr Awdurdodau Lleol Unedol Gogledd a Chanolbarth Cymru gyda Chyngor Gwynedd yn gweithredu fel Awdurdod Arweiniol y Bartneriaeth.

Mae oddeutu 250 o staff yn gweithio i'r Asiantaeth ac mae ein swyddfeydd wedi ei lleoli ar draws ledled Cymru gan gynnwys Bangor, Llandygai, Conwy, Helygain, Wrecsam, Dolgellau, Llandrindod, Dre Newydd ac Aberaeron. Mae'n bosib i'r Prentis ymweld a'r swyddfeydd hyn yn ystod ei gyrfa gyda'r Asiantaeth.

Mae'r Uned Busnes yn darparu swyddogaethau cefnogi hanfodol i holl weithrediadau'r Asiantaeth gan gynnwys gwaith rheolaeth ariannol, archwilio, rheoli perfformiad, contractau masnachol, cynllunio busnas, iechyd a diogelwch, gwasanaethau cwsmeriaid, systemau rheoli prosiectau, cyfathrebu a sicrwydd ansawdd.

Fel Prentis yn y maes yma byddwch yn cael profiad o holl ystod gwaith yr Uned Busnes gan gynnwys:

- Dysgu am brosesau cyllidol yr Asiantaeth yn cynnwys prosesau taliadau, cyfrannu tuag adrodd ar ddata perfformiad yr Asiantaeth.
- Cyfle i ddatblygu sgiliau dadansoddi drwy ddefnydd o Excel a PowerBI.
- Deall amrywiaeth o systemau hanfodol yr Asiantaeth e.e. IRIS/TRAFIS/CRM.
- Dysgu sut i adennill costau sy'n deillio o ddifrod i eiddo Llywodraeth Cymru a achoswyd gan drydydd parti ar y rhwydwaith Cefnffyrdd.
- Deall trefniant a methodoleg archwilio fewnol.
- Gweithredu trefniadau adnoddau dynol.
- Delio efo cwsmeriaid dros y ffôn a trwy e-byst - mewn bwydo gwybodaeth i system Llywodraeth.



## Pa gyfleoedd fydd ar gael i chi wrth ddilyn eich prentisiaeth?

Bydd dilyn prentisiaeth yn agor llawer o ddrysau i chi ac yn cynnig cyfleoedd amrywiol i chi ddatblygu eich sgiliau a pharatoi ar gyfer byd gwaith.

| Fframwaith brentisiaeth | Lefel | Math | Darparwr | Hyd y Brentisiaeth |
|---|---|---|---|---|
| Gweinyddu Busnes | Diploma | Gweinyddu Busnes | Coleg Llandrillo | 2 flynedd |

## DATBLYGIAD RHEOLAIDD

Rhan bwysig o wneud prentisiaeth yw sicrhau eich bod yn datblygu'n rheolaidd. Yn ystod y brentisiaeth cewch eich asesu drwy gyfuniad o'r dulliau canlynol:

- Cwblhau portffolio tystiolaeth
- Arsylwadau yn y gweithle
- Tasgau a phrofion theori

## DULLIAU CYFLWYNO

Mi fydd y brentisiaeth yn cael ei gyflwyno drwy gyfuniad o'r dulliau canlynol:

- Profiadau yn y gwaith
- Sesiynau yn y coleg i gwblhau rhai tasgau a phrofion theori

## Y CAMAU NESAF

Ar ôl cwblhau'r rhaglen hon yn llwyddiannus, bydd gennych nifer o ddewisiadau ar gyfer y dyfodol o ran addysg a'r byd gwaith.

Gallwch arbenigo neu ddewis swydd yn y meysydd canlynol:

- Busnes
- Cyllidol a Masnachol
- Rheoli Perfformiad
- Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd
- Cydlynu Gofal Stryd

# BUDDIANNAU PRENTISIAETH

Mae llawer o fuddiannau byddwch yn gallu elwa ohonynt wrth i chi ddilyn llwybr prentisiaeth.
Dyma amlinellu dim ond ychydig ohonynt...

**01**

**Datblygu sgiliau sydd yn hanfodol i'r swydd**

Tra yn gweithio gyda staff profiadol, bydd cyfle i chi ddysgu gan aelodau o'r tîm, datblygu eich sgiliau a magu hyder yn eich maes.

**02**

**Ennill profiadau gwerthfawr**

Wrth i chi ymgymryd a rôl prentis bydd cyfle i chi ddysgu am eich gyfrifoldebau wrth i chi weithio. Byddwn yn cymryd i ystyriaeth nad oes gennych brofiad blaenorol yn y maes, ac yn cynnig y cyfleoedd gorau posib i chi ddysgu!

**03**

**Derbyn hyfforddiant o'r safon uchaf**

Byddwch yn cwblhau cymwysterau gan weithio yn agos gyda sefydliad addysg. Bydd y sefydliad yn ddibynnol ar eich maes, ond mae pob sefydliad wedi ymrwymo i gynnig gwasanaeth o'r safon uchaf i'n prentisiaid.

**04**

**Cwblhau cymwysterau cydnabyddedig yn eich maes**

Mae'r cymwysterau rydych yn eu dilyn yn sicr o agor drysau newydd i chi. Maent yn gymwysterau sydd yn cael eu cydnabod gan gyflogwyr, ac mae meysydd ein prentisiaethau yn datblygu'n gyflym ar hyn o bryd.

**05**

**Derbyn cefnogaeth a chymorth profiadol**

Tra byddwch yn gweithio yn eich maes, bydd gennych fentor lleoliad, a mentor o'r Coleg a fydd yn cynnig cymorth i chi drwy'r cyfnod. Gallent eich helpu yn eich rôl o ddydd i ddydd, neu gyda'ch gwaith coleg - dim ond gofyn sydd angen!

**06**

**Datblygu dy hun**

Mae Cyngor Gwynedd yn annog pob aelod o staff i barhau i ddatblygu eu hunain wedi iddynt sicrhau swydd. Bydd cyfle i chi ddatblygu eich hun ymhellach a manteisio ar ein cyrsiau mewnol unwaith byddwch yn y rôl.

Ac wrth gwrs, drwy ddilyn prentisiaeth yng Nghyngor Gwynedd byddwch yn...

**ENNILL CYFLOG TRA'N GWEITHIO**

Os nad yw mynd i'r Coleg neu Brifysgol yn teimlo fel y cam naturiol nesaf i chi, bydd dilyn prentisiaeth yn eich galluogi i weithio, ennill cyflog, derbyn cymhwyster ac elwa o brofiadau gwerthfawr byd gwaith. Os ydych chi'n byw yng Nghymru, dros 16 mlwydd oed, ac ddim mewn addysg llawn amser, gall prentisiaeth fod yn gyfle perffaith i chi ddatblygu eich gyrfa.

**GWEITHIO MEWN AWYRGYLCH GYMREIG**

Gallwn gynnig y cyfle i chi weithio pob dydd mewn awyrgylch Gymreig. Mae'r Gymraeg yn rhan o'n diwylliant ni, a byddai derbyn prentisiaeth gyda ni yn cynnig y cyfle perffaith i chi fod yn rhan o'r awyrgylch yma.

# BUDDIANNAU PRENTISIAETH

Yn ogystal â hyn mae llawer o fuddiannau i'w cael wrth weithio i Gyngor Gwynedd:

- Byddwch yn gweithio mewn awyrgylch dwyieithog
- Bydd cyfle i chi fod yn rhan o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol
- Bydd gennych 26.5 diwrnod o wyliau, yn ogystal â 8 diwrnod o wyliau banc / gwyliau cyhoeddus
- Byddwch yn rhan o'n Cynllun Oriau Ystwyth
- Byddwch yn elwa o ystod eang o gyfleoedd hyfforddi a datblygu mewnol ac allanol
- Manteisio ar gynllun beicio i'r gwaith
- Bod yn rhan o'r undeb credyd
- Elwa o ddisgownts mewn siopau lleol a chenedlaethol
- Cymryd mantais o'r Cynllun Chwarae Plant
- Cefnogaeth i chi gael bywyd iach

# BETH YW CYFLOG PRENTIS?

Dyma raddfa prentis Cyngor Gwynedd (yn unol â'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol).

| Prentis (oed) | Cyflog y flwyddyn | Cyflog Net/Mis |
|---|---|---|
| O dan 18 | £12,347.39 | £1,028.95 |
| 18 - 20 | £16,591.81 | £1,382.65 |
| 21+ | £22,070.96 | £1,839.25 |

# Y BROSES YMGEISIO



Cam 1:
Y Ffurflen Gais



Cam 2:
Profiadau



Cam 3:
Paratoi



Cam 4:
Y Ganolfan Recriwtio

## Y FFURFLEN GAIS

- Darllenwch unrhyw ganllawiau cyn llenwi eich cais.
- Cymerwch ofal o'ch iaith, a chofiwch ail-ddarllen y cais cyn ei chyflwyno.

## PROFIADAU

- Ceisiwch deilwra eich profiadau i gyd-fynd a'r hyn rydym yn chwilio amdano. Defnyddiwch amryw o brofiadau sydd yn rhoi'r trosolwg gorau
- o'ch sgiliau. Os nad ydych yn siŵr beth i'w gynnwys, holwch ffrind, neu
- unigolyn sydd yn eich adnabod yn dda, am gyngor a syniadau.

## PARATOI

- Byddai'n syniad da ymchwilio i'r Cyngor cyn ymgeisio er mwyn cael ychydig o wybodaeth cefndirol ynglŷn a'r heriau sydd yn ein wynebu ar hyn o bryd. Lluniwch frawddeg i chi eich hun yn crynhoi pam rydych eisiau ymgeisio a
- rhestrwch eich cryfderau - byddwch yn synnu o weld beth allwch ei gynnig i'r Cyngor!

## Y GANOLFAN RECRIWTIO

- Llongyfarchiadau ar gyrraedd y Ganolfan Recriwtio!
- Darllenwch dros eich cais, a gwnewch yn siŵr fod gennych amryw o brofiadau i'w trafod ar y diwrnod.
- Cofiwch mai dyma yw eich cyfle chi i arddangos eich sgiliau a'ch potensial i fod yn brentis.
- Cofiwch pam eich bod wedi ymgeisio, byddwch yn chi eich hun, a mwynhewch y diwrnod!

# CANLLAWIAU AR GYFLWYNO CAIS

Mae'n bwysig fod eich cais yn canolbwyntio ar wybodaeth sy'n berthnasol i'r swydd, ac wedi ei chyflwyno'n gryno ac eglur. Dylech edrych yn ofalus ar y Manylion Person i sicrhau fod eich cais yn ateb ein gofynion. Mae'r rhan fwyaf o gyflogwyr yn cynnwys Manylion am y Person gyda'u Swydd Ddisgrifiad. Mae Manylion am y Person yn y bôn yn rhestr o sgiliau a gwybodaeth sydd eu hangen i wneud y swydd yn dda. Wrth gwblhau'r rhan Gwybodaeth Bellach yn eich Cais am Swydd, byddwn yn gofyn i chi ateb cwestiynau penodol gan ddilyn strwythur a chanllawiau, a chadw at y nifer geiriau.

Byddwn yn rhoi ystyriaeth i'r isod pan byddwn yn tynnu rhestr fer:

1. Gallu i ddefnyddio enghreifftiau o'ch cyflogaeth, profiadau rydych wedi eu cael drwy'r ysgol neu goleg, profiadau gwaith, hobïau neu/a gwaith gwirfoddol rydych wedi eu cwblhau.

2. Gan fod cyfathrebu a chywirdeb iaith yn y Gymraeg a'r Saesneg yn hanfodol, rydym yn annog pob ymgeisydd i gwblhau'r ffurflen yn y Gymraeg.

3. Bydd dilyn y strwythur a'r canllawiau sydd ynghlwm a'r swydd ddisgrifiad yn fanteisiol i'ch cais.

4. Pan byddwch yn disgrifio eich enghreifftiau, dylech fanylu ar eich sgiliau, cryfderau a phrofiadau.

   **Sgiliau** – Yr hyn rydych yn gallu ei wneud.
   **Cryfderau** – Y sgiliau rydych yn ei wneud orau.
   **Profiadau** – Yr hyn rydych wedi'i wneud sy'n arddangos eich sgiliau a'ch gryfderau.

# BETH SY'N GWNEUD Y PRENTIS PERFFAITH?

## DANGOS YR YMDDYGIAD AC AGWEDD CYWIR

- Bod yn deg a gallu trin pobl gyda pharch
- I fod yn gymwynasgar ac yn gwrtais

## DANGOS YMRWYMIAD I WAITH

- I fod yn gyfrifol am wneud y dyletswyddau a chyfrifoldebau rôl prentis i'r lefel uchaf bosib
- I gyflawni pob dyletswydd sy'n ofynnol
- Deall pwysigrwydd cyfle cyfartal

## CYFRANNU TUAG AT LWYDDIANT

- Cyfrannu tuag at lwyddiant y sefydliad, y tîm a'r gwasanaeth
- Gallu trefnu eich amser eich hun a chyflawni tasgau o werth

## GWEITHIO FEL RHAN O DÎM

- Gallu gweithio mewn tîm
- I gyfrannu at gyfarfodydd tîm a chyfathrebu'n rheolaidd ac yn effeithiol gydag aelodau eraill y tîm

## CYFATHREBU GYDA HYDER

- Y gallu i gyfathrebu gyda hyder yn y Gymraeg a'r Saesneg
- Y gallu i ddangos y sgiliau cywir i allu cyfathrebu yn gywir ar gyfer unrhyw gynulleidfa

## PARODRWYDD I DDYSGU

- I ymrwymo i'ch datblygiad i gyflawni eich swydd a'r brentisiaeth
- Adnabod anghenion datblygu personol yn barhaus a gweithredu arnyn nhw

## DEALL BETH SYDD EI ANGEN I WEITHIO I'R CYNGOR

- Deall y sialensiau sydd yn ein wynebu fel Cyngor
- Manteisio ar gyfleoedd i fod yn greadigol ac yn arloesol
- Sicrhau eich bod yn rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth rydych yn ei wneud

# CREU CAIS EFFEITHIOL

## PWYNTIAU PWYSIG (y byddwn yn eu hystyried wrth lunio rhestr fer)

- Gan fod cyfathrebu a chywirdeb iaith yn y Gymraeg a'r Saesneg yn hanfodol, rydym yn eich annog i gwblhau'r ffurflen yn Gymraeg
- Bydd dilyn y strwythur a'r canllawiau isod yn fanteisiol i'ch cais
- Yn eich enghreifftiau, dylech fanylu ar beth wnaethoch chi a'r effaith a gafodd
- Ysgrifennwch dim mwy na 200 o eiriau i bob pwynt

1. PAM YMGEISIO AR GYFER Y BRENTISIAETH YMA? Eglurwch pam yr ydych yn ymgeisio am y brentisiaeth yma'n benodol. Cofiwch sôn am eich diddordeb yn y maes a pham fod y brentisiaeth yma'n apelio atoch chi. 2. YMDDYGIAD AC AGWEDD BRIODOL Disgrifiwch un digwyddiad sy'n dangos i chi ymddwyn yn briodol a phroffesiynol neu ymateb yn bositif i sefyllfa anodd – e.e. dangos parch, agwedd bositif, cydweithio, ysgogi pobl, defnyddio iaith briodol. 3. YMRWYMIAD I WAITH Disgrifiwch un digwyddiad sy'n dangos i chi gyfrannu at ganlyniadau o werth wrth weithio ar dasg neu brosiect. 4. CYFRANNU AT LWYDDIANT Disgrifiwch un digwyddiad sy'n dangos i chi gyfrannu at lwyddiant prosiect neu ddigwyddiad. 5. GWEITHIO FEL RHAN O DÎM Disgrifiwch un digwyddiad sy'n dangos chi weithio yn effeithiol fel rhan o dîm.

6. CYFATHREBU GYDA HYDER
Disgrifiwch un digwyddiad sy'n dangos i chi gyfathrebu'n hyderus ar lafar neu'n ysgrifenedig gydag unigolion neu grŵp.

7. PARODRWYDD I DDYSGU
Disgrifiwch un digwyddiad sy'n dangos eich parodrwydd i ddysgu.

8. YMWYBYDDIAETH O BETH SYDD EI ANGEN I WEITHIO I'R CYNGOR
Eglurwch pam eich bod eisiau gyrfa gyda'r Cyngor.

# CREU CAIS EFFEITHIOL

Ydych chi'n awyddus i lenwi ffurflen gais ond ddim yn siŵr sut i strwythuro eich atebion? Beth am ddefnyddio'r dull PREP?

Dechreuwch drwy ateb y cwestiwn: “Rwy'n credu bod...”

*Rwy'n credu mai un o fy mhrif gryfderau yw fy sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig.*

Yna rhowch eglurhad: “A'r rheswm pam rwy'n credu hynny yw...”

*Rwy'n credu hyn gan fy mod yn gallu strwythuro fy atebion yn glir ar bapur ac am fy mod yn cymryd amser i lunio fy ateb cyn ei gofnodi.*

Darparwch enghraifft sy'n cefnogi eich sefyllfa: “Er enghraifft, dim ond yr wythnos diwethaf...”

Er enghraifft, llwyddais i berswadio fy nghyngor ysgol fod angen gwisg newydd ar ein tîm pêl droed drwy ysgrifennu llythyr atynt.

Gorffennwch drwy grynhoi eich pwynt: “A dyna pam rwy'n credu bod...”

***Credaf fod hyn yn enghraifft dda o sut rydw i wedi llwyddo gan ddefnyddio fy sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig.***